# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Tachwedd 2016 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679 468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Adrannol ynghyd a'r Tîm Arweinyddiaeth. (oedd hefyd ar gyfer y cylch yma fel arbrawf yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu).

1.3 Ar y cyfan rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant.

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1. **Prosiectau'r Cynllun Strategol**

4.1.1. Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2016-17.

4.2. **G1 Her Gofal - *Ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithio'n gymunedol.***

4.2.1 Ers y tro diwethaf i mi adrodd rhoddwyd cyflwyniad dechreuol i Grŵp Uwch Reolwyr y Cyngor er pwysleisio fod llesiant yn rhan o ddyletswyddau pob un ohonom a bydd sesiwn i ddatblygu'r cysyniad yma ymhellach yn cael ei gynnal gyda phartneriaid yn fuan.

4.2.2 Adroddais i chi ddechrau mis Hydref fod darn o waith amlwg i'w wneud er mwyn sicrhau plethiad rhwng y prosiect hwn a rhaglenni gwaith eraill megis Cynllun Heneiddio'n Dda a'r rhaglen waith Llesiant ehangach. Mae'r gwaith yma yn parhau i fynd rhagddo ac angen sylw yn yr wythnosau nesaf.

4.2.3 Hyderaf y bydd y camau nesaf ar brosiectau G2 a G3 ac eglurder wedi hynny ar siâp y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) yn gwneud rhaglen waith Her Gofal dros y mis nesaf yn fwy cadarn.

4.3. **G2 Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion - *Ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio.***

4.3.1 Rydym bellach wedi datblygu mesur sy'n mesur effaith y ffordd newydd o weithio ac mae hynny yn cael sylw pellach yn rhan 4.9 o'r adroddiad hwn. Adroddais y tro diwethaf fod y data hyd yma, o gymharu â'r un cyfnod blwyddyn ddiwethaf, yn dangos gostyngiad ym mhecynnau gofal traddodiadol yn ardal Eifionydd. Gallaf gadarnhau fod y tuedd hwn yn parhau.

4.3.2 Adroddais y tro diwethaf y bwriad o benodi Arweinyddion Ardal ar draws y Sir erbyn diwedd y flwyddyn galendr, ond yn anffodus rhagwelir llithiad o ran hyn. Mae oedi wedi bod o ran y broses ymgynghori gyda staff y Bwrdd Iechyd a rhagwelir y bydd hynny yn cael ei wneud yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr, yn hytrach na'r bwriad gwreiddiol o gwblhau'r ymgynghoriad erbyn diwedd mis Hydref. Ar sail hyn, byddwn yn anelu i gael yr Arweinyddion Ardal yn weithredol yn eu rolau newydd erbyn dechrau mis Ebrill. Er y llithriad mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i baratoi lleoliadau ar gyfer y Timau Integredig ar draws y Sir a hefyd mae trefniadau yn cael eu gwneud o ran y rhaglen hyfforddi staff. Hoffwn

bwysleisio, er bod llithriad mewn amserlenni yn gallu bod yn rhwystredig i bawb, mae'r ffaith fod y penodiadau hyn bellach yn cael eu gwneud ar sail barhaol yn rhoi sicrwydd a hyder i staff o strwythur y dyfodol.

4.4. **G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant -** ***Sicrhau fod strwythur staffio'r adran yn addas ar gyfer y dyfodol.***

4.4.1 Adroddais y tro diwethaf ynglŷn â'r penderfyniad i sefydlu Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo o ran hyn, a bydd adroddiad ar ddatblygiad y tîm a chostau ei sefydlu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan.

4.4.2 Mae cynnydd ar gynllun G2 hefyd yn dylanwadu ar y strwythur terfynol yn enwedig o ran rhannu i weithio mewn 5 Tîm Ardal ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd. Hoffwn atgoffa aelodau'r Cabinet fod sgôp y prosiect dan sylw wedi cael ei newid yn sylweddol ers iddo gael ei gomisiynu'n wreiddiol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae datblygiad prosiect G2 yn benodol wedi amlygu'r angen i roi strwythur integredig mewn lle ar gyfer y meysydd Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol.

4.4.3 Yn olaf, oherwydd maint yr agenda trawsnewid mae Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ychwanegu capasiti ar lefel uwch reolaethol yr Adran ar sail dros dro. Bydd hwn yn gyfle datblygol i aelod o staff o fewn y Cyngor i weithredu ar lefel uwch reolwr ar sail secondiad gyda swyddogion profiadol i'w cefnogi ac yn fodd o godi a chynnal momentwm ar waith trawsnewid yr Adran dros y 18 mis nesaf.

4.5. **G4 Tai Gofal Ychwanegol –** ***Adeiladau Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.***

4.5.1 Mae gwaith dymchwel, clirio'r safle ynghyd a'r gwaith peilio wedi ei gwblhau ac mae'r gwaith sylfaeni ar fin dechrau. O ganlyniad i broblemau oedd ynghlwm a'r gwaith peilio, mae oedi oddeutu 6 wythnos i'r rhaglen waith yn golygu y bydd y datblygiad newydd yn debygol o fod yn barod erbyn dechrau mis Tachwedd. Nid yw hyn yn debygol o gael unrhyw effaith ar y broses o lenwi'r unedau a rhagwelir y bydd dau 'fflat arddangos' yn barod erbyn diwedd mis Mai 2017.

4.6. **G5 Frondeg –** ***Sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.***

4.6.1 Fel y gwyddoch, yn dilyn yr ymgysylltu a wnaethpwyd, mae briff wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda'r prif fudd-ddeiliaid. Ers y tro diwethaf i mi adrodd gallaf gadarnhau fod Grŵp Cynefin yn awyddus i fod yn bartner datblygol ac, ynghyd a chwmni Pensaer, aethpwyd i ymweld â'r safle ar y 20.10.16. Fe fyddent ar y cyd rŵan yn mynd ati i ddatblygu achos busnes ar gyfer y safle ac yn anelu i ddatblygu cynlluniau drafft ar gyfer y flwyddyn newydd. Rwy'n falch o adrodd fod y Penseiri hefyd yn awyddus iawn i'r defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd fod yn rhan o ddylunio'r llety newydd.

4.7. **G6 Darpariaeth fewnol –** ***Penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaethau gofal) a gweithredu ar hynny.***

4.7.1 Cafodd Adroddiad 'Achos Strategol Model Darparu Gofal' ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ar y 20.09.16 a phenderfynwyd, ar hyn o bryd, nad oes sail i newid y model darparu mewnol cyfredol. Cytunwyd y dylid ail ymweld â'r opsiynau mewn dwy i dair blynedd.

4.7.2 Law yn llaw a'r penderfyniad a wnaethpwyd, bydd Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cyflwyno rhaglen arbedion effeithlonrwydd ddiwygiedig i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd. Bydd ffocws y rhaglen hon ar y gwaith o drawsnewid gwasanaethau a'r ffordd o gyfredol o weithio.

4.8. **G7 Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac Iechyd – *Ymateb i'r problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hyn yn benodol.***

4.8.1 *Model Gofal Newydd* - Fel yr adroddais y tro diwethaf rydym yn datblygu model gofal newydd sydd yn rhoi mwy o gefnogaeth nyrsio fydd yn caniatáu unigolion i aros yn y cartref preswyl yn hirach ac osgoi mynediad i gartref nyrsio. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i ddatblygu Cartref Preswyl Llys Cadfan ac un o'r tasgau allweddol o ran hynny yw drafftio datganiad o bwrpas newydd ar gyfer y cartref. Er mwyn cefnogi hyn bydd angen mewnbwn pellach gan y Bwrdd Iechyd a chytundeb yn nodi eu cefnogaeth hir dymor i'r model dan sylw. Yn dilyn hyn gallwn wneud cais i'r Arolygaeth Gofal er mwyn newid y cofrestriad y Cartref.

4.8.2 *Cefnogi Gofalwyr* - Eglurais y tro diwethaf i mi adrodd fod gwaith yn mynd rhagddo yn rhanbarthol fydd yn ein helpu i benderfynu os yw ein trefniadau cyfredol yn addas o ystyried disgwyliadau'r ddeddf. I gael darlun llawn o'r sefyllfa yng Ngwynedd mae cyfarfodydd wedi eu trefnu i geisio barn Pencampwr a swyddogion arweiniol y maes. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i fod yn dadansoddi holiaduron er mwyn ceisio tynnu allan barn gofalwyr am y trefniadau cyfredol.

> **PWYNT GWEITHREDU O'R CYLCH DIWETHAF:**
> **Gofynnwyd am ddiweddariad cyson, a hefyd trefnu i Ffion Johnstone o'r Bwrdd Iechyd ddod draw i roi cyflwyniad i'r Tîm Arweinyddiaeth.**
> Mae'r cais wedi cael ei drafod gyda Ffion Johnstone ac rydym yn y broses o gytuno ar amseriad a chynnwys unrhyw gyflwyniad fyddai o ddiddordeb i'r Tîm Arweinyddiaeth. Credaf fod cyfle yma i gydblethu'r holl waith sy'n digwydd o ran capasiti a chynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal. Mae'n gwbl angenrheidiol ein bod yn cael darlun llawn o'r sefyllfa ac yn ystyried gweithlu'r maes gofal ac iechyd fel un gweithlu, sy'n gweithredu oddi mewn i'r un system.

5.9. **Perfformiad**

5.9.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.9.2 Adroddais y tro diwethaf fod trefniadau wedi eu gwneud o ran datblygu mesur sy'n mesur pwrpas y Gwasanaeth Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol yn uniongyrchol. Rwy'n falch o ddweud, er yn parhau i fod yn ddatblygol ei natur, fy mod bellach yn gallu dechrau adrodd ar y mesur hwn. Mae llawer o waith i'w wneud er mwyn sicrhau fod y mesur yn cael ei ddefnyddio i'w llawn botensial gan yr holl weithlu, a bydd hynny heb os yn cael ei wneud law yn llaw hefo datblygu'r ffordd newydd o weithio ar draws y Sir trwy brosiect G2.

5.9.3 O ystyried cyfanswm sampl y mesur **OED023** (59 unigolyn), mae 71% (42 unigolyn) ohonynt wedi gweld gwelliant o ran cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae 20% (12 unigolyn) heb brofi newid ers yr adolygiad blaenorol a pum unigolyn wedi gweld dirywiad. Mae'r mesur hefyd yn casglu'r rhesymau y tu o'r methiannau, ac

rwyf wedi gofyn am ddadansoddiad yn benodol o ran hynny er mwyn gweld sut rydym am ddysgu ohonynt er mwyn gwella. Mae'r gweithiwr unigol sy'n gyfrifol am gael y sgwrs hefo'r unigolyn wrth reswm yn ymwybodol o'r rheswm dros unrhyw lithriad, ond credaf fod lle hefyd i fod yn clystyru'r gwahanol rwystrau er mwyn adnabod tueddiadau cyffredinol.

5.9.3 Fe ddylai mesurau perfformiad fod yn helpu'r gweithlu i ddysgu a gwella'n barhaus. Ar sail hyn cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf o'r Tîm Rheoli Adrannol fod angen datblygu'r mesur dan sylw ymhellach fel bod modd cael dadansoddiad ar sail y pum ardal newydd. Cytunwyd y byddai'r math yma o wybodaeth yn hynod ddefnyddiol i arweinwyr a holl staff yr ardaloedd, ac yn arf hynod effeithiol er mwyn gwella Gwasanaeth Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol.

5.9.4 Ers i mi adrodd i chdi y tro diwethaf, fel rhan o ddisgwyliadau'r ddeddf newydd, mae holiadur wedi cael ei anfon allan ar gyfer holl ddefnyddwyr y maes gofal. Rydym yn cadw golwg ar un allbwn penodol **(Hol/001)** yn yr holiadur safonol sef y 'Bobl sy'n nodi y gallent wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt'. Rhagwelir y byddwn wedi dadansoddi'r holiadur yn llawn erbyn mis Chwefror 2017.

5.9.5 Amlygais y tro diwethaf fy mod yn pryderu'n sylweddol o ran perfformiad y mesur **SCA/001** - **Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed.** Yn anffodus mae'r pryder yn parhau gallaf adrodd bellach fod cyfartaledd o 2.6 unigolyn fesul 1,000 o'r boblogaeth yn gweld oediad wrth drosglwyddo o ysbytai i'r gymuned. Pe byddai'r perfformiad yn parhau'r un fath am weddill y flwyddyn rhagwelir y byddwn yn perfformio yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru - amcan perfformiad o 6.0 o gymharu â chanolrif Cymru (4.9) yn 15/16. Mae gostyngiad bychan wedi bod o ran yr hyn roeddem yn ei ragweld ym mis Medi fel perfformiad diwedd y flwyddyn (6.2 i 6.0).

5.9.6 Mewn ymateb i'r pryderon o ran **SCA/001** mae sesiwn benodol wedi ei drefnu yn Ysbyty Gwynedd er mwyn deall yn well y broses drosglwyddo cleifion o'r Ysbyty i'r gymuned. Bydd y sesiwn yn cael ei hwyluso gan arbenigwyr *systems thinking* ac yn cael ei gynnal ar y 05.01.17. Rwy'n obeithiol y bydd hyn yn cynnig opsiynau i ni ar gyfer sicrhau fod y broses o drosglwyddo yn cael ei wneud mor effeithiol â phosib.

5.9.7 Hoffwn dynnu eich sylw at y mesur **SCA/019** (Lleol), ble mae 4% o'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion heb eu rheoli ar hyn o bryd. Ond, ers derbyn y wybodaeth yn wreiddiol, rwyf wedi derbyn cadarnhad gan y Gwasanaeth fod y 4% yn cynrychioli dau achos ble mae diffyg wedi bod o ran cofnodi yn hytrach na'u bod heb gael eu rheoli. Gallaf gadarnhau fod gwaith yn mynd rhagddo i gywiro hyn. Ar hyn o bryd dyma'r dyma'r prif fesurydd, sy'n cael sylw ar lefel y cynllun strategol, sy'n mesur diogelu Oedolion yn benodol. Ond, wrth sefydlu'r Uned Diogelu ac Ansawdd newydd sy'n tynnu elfennau diogelu Oedolion at ei gilydd, bwriedir sefydlu pwrpas i'r uned ac felly hefyd y mesurau perfformiad addas i fesur y pwrpas hwnnw.

5.9.8 Er nad yn fesur swyddogol ar yn o bryd rydym yn cadw golwg cyson ar y rhestr aros i gael asesiad 'Diogelu Rhag Colli Rhyddid' (DoLS). Mae'r tabl isod yn cynnig diweddariad o'r sefyllfa hyd at ddiwedd mis Hydref 2016.

| | |
|---|---|
| **Nifer y cyfeiriadau yn 2016/17** | 216 hyd at 21-10-16 |

| Rhestr aros i gael asesiad | Preswyl - 288<br>Llety Cefnogol – 149 |
|---|---|

Yn ogystal ag ymateb i'r galw o ran y rhestr aros dylid nodi fod cyfanswm o 444 cais wedi cael eu hawdurdodi, ac felly angen eu hadolygu yn barhaus. Mae cynnal asesiad unigol yn golygu o leiaf 8 awr o waith ond yn aml iawn mae'n golygu cyfartaledd o 10-12 awr i gwblhau asesiad yn llawn. Bellach mae gennym gyfanswm o 24 Gweithiwr Cymdeithasol wedi eu hyfforddi i fod yn cynnal asesiad ond er hyn mae yn glir nad yw'r trefniadau presennol yn ddigonol i ymateb i faint y dasg dydd i ddydd ac i glirio'r ôl-groniad. Fel rhan o'r adroddiad i'r Cabinet ar sefydlu Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd (4.4.1), mae'r Adran yn tanlinellu'r angen i gryfhau'r trefniadau sydd mewn lle a sicrhau adnoddau angenrheidiol ar gyfer y maes gwaith yma.

5.9.9 Mae gwaith angen ei wneud o ran datblygu mesurau sy'n mesur pwrpas ar gyfer y gwasanaethau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl.

**PWYNT GWEITHREDU O'R CYLCH DIWETHAF:**
**Cytunwyd bod angen mwy o waith i weld beth a ellir ei wneud i ddenu mwy o bobl i'r maes. Gofynnwyd i edrych ar weithredu Cyngor Newham Llundain wrth ddefnyddio TG fel rhan o'i gwasanaethau gofal. Potensial i edrych ar yr ymarfer da gan ystyried gweithredu yng Ngwynedd.**
Mae Cyngor Newham yn gweithredu strategaeth Technoleg Gwybodaeth eang ar draws y gorfforaeth ac mae posib gweld hynny'n cael ei weithredu trwy'r 'Porth Hunan Wasanaeth' sydd ganddynt i drigolion. Yn benodol o ran y maes gofal credaf fod gennym le i ddysgu o ran 'Mynediad at wybodaeth' a 'Hunan gyfeirio'.

**Mynediad at wybodaeth** - Heb os mae Cyngor Newham yn gwneud defnydd gwych o'u gwefan ac mae defnyddwyr gwasanaeth, gofalwr, trigolion a gweithwyr y maes yn manteisio ar 'gyfeiriadur o wasanaethau' a chyngor cyffredinol. Yma yng Ngwynedd mae'r math yma wasanaeth yn cael ei ddatblygu trwy 'Dewis Cymru' sy'n gweithredu ar draws Cymru. Mae sicrhau adnodd fel hyn sy'n lleol, cynhwysfawr a chyfredol yn mynd i fod yn gwbl hanfodol i'r dyfodol. Mae 'Dewis Cymru' yn weithredol ers blwyddyn bellach a bydd ei rôl, a'i blethiad gyda ffynonellau gwybodaeth eraill, yn derbyn ystyriaeth dros y misoedd nesaf fel rhan o gadarnhau trefniadau'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA). Er hyn, yn dilyn ymchwilio i drefniadau Cyngor Newham, penderfynwyd creu cyswllt uniongyrchol o wefan y Cyngor i wefan Dewis Cymru er hwylustod.

**Hunan gyfeirio** - Mae'n bosib i drigolion Newham gyfeirio eu hunan trwy wefan y Cyngor a disgwyl wedyn am gyswllt gan y Cyngor i drafod opsiynau gofal. Credaf fod gennym le yma yng Ngwynedd i o leiaf ystyried manteision datblygu'r math yma o wasanaeth i gefnogi'r ddarpariaeth gyfredol, ond ar yr un pryd mae angen bod yn hynod ofalus nad ydym yn colli golwg ar bwysigrwydd a gwerth y cyswllt cyntaf gyda'r unigolion. Mae'r hyn rydym wedi ei ddysgu hyd yma trwy'r prosiect G2 yn awgrymu'n gryf fod angen buddsoddi gymaint â phosib yn y sgwrs ddechreuol wyneb yn wyneb hefo'r unigolyn beth bynnag eu sefyllfa.

6.10 **Sefyllfa Ariannol/ Arbedion**

6.10.1 Mae'r her o gyflawni arbedion yn parhau eto eleni a, fel yr adroddais i chi y tro diwethaf, credaf fod angen gwneud cynnydd sylweddol ar nifer o'r cynlluniau arbedion yn y misoedd nesaf os am lwyddo i gadw o fewn gyllideb. Gallaf gadarnhau yn ogystal fod 80% o doriadau disgwyliedig yn 2016/17 yn barod wedi eu gwneud. Ers i mi adrodd chi y tro diwethaf gallaf gadarnhau hefyd fod pump o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd 2016/17 wedi eu gwireddu (cyfanswm o £341,000).

6.10.2 Mae dadansoddiad diwedd Chwarter 2 yn awgrymu gorwariant o £303,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Prif Weithredwr:**

Yn amlwg, mae rhai o'r prosiectau strategol yn y maes hwn, fel Her Gofal a Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal a iechyd yn anferth a phell-gyrhaeddol all gymryd peth amser i gael eu gwireddu'n llawn. Fodd bynnag, mae'n dda gweld rhai pethau pendant yn symud yn eu blaenau fel y gwaith ar safle'r Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog a'r gwaith o ddatblygu achos busnes ar gyfer Safle Frondeg. Yn amlwg, mae rhai pethau ar feddwl yr Aelod Cabinet ac mae'n agored yn eu cylch, yn cynnwys y gorwariant a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn ac, mae'n debyg, yr angen i ddod â chynigion effeithlonrwydd diwygiedig yn sgil y penderfyniad i beidio â symud i fodel darparu gofal newydd ar hyn o bryd. Enghraifft arall yw'r rhestr aros i gael asesiad 'Diogelu Rhag Colli Rhyddid' (DoLS) sydd, rwy'n gwybod o bryder i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau hefyd.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Bu camau pendant gan yr Aelod Cabinet a Phennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyfarch y pryder oedd yn bodoli parthed tan gyflawni a llithriadau gydag amryw o gynlluniau. Tra'n nodi'r cynnydd sydd wedi ei weld dros y misoedd diwethaf o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion, rwy'n ategu sylwadau'r Aelod Cabinet (yn rhan 6.10 o'r adroddiad) bod yr her o gyflawni'r nod yn parhau. Mae 12% o gynlluniau 2015/16 a 34% o gynlluniau 2016/17 eto i'w gwireddu, sy'n cyfrannu tuag at y gorwariant adrannol o £303,000 a ragwelir am y flwyddyn 2016/17 (fel adroddir yn yr Adolygiad Cyllideb Refeniw (ail chwarter) sydd hefyd ar raglen y Cabinet.

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i’w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad